Prosiect Gwybodaeth Hawdd ei Deall

Ebrill 2011 - Mawrth 2013

Mae arnom eisiau gwella iechyd a lles pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.

Byddwn yn gwneud hyn trwy ei gwneud yn haws i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd gael gafael ar wybodaeth gofal iechyd hawdd ei deall.

Mae'r prosiect:

- yn cychwyn a datblygu **Gwefan** ble gellir gweld gwybodaeth hawdd ei deall am iechyd a lles a'i hargraffu

- yn rhedeg **Llinell Gymorth** sy'n cefnogi defnyddwyr y wefan i ddod o hyd i wybodaeth hawdd ei deall a deall beth mae'n ddweud

- yn datblygu **Llawlyfr ar gyfer mudiadau sy'n dweud sut i wneud gwybodaeth hawdd ei deall dda**

- yn datblygu ffordd o edrych a yw gwybodaeth hawdd ei deall yn dda neu beidio. Mae hwn yn cael ei alw'n Gyfrwng Prisio Gwerth

- yn gwneud dogfennau hawdd eu deall sy'n rhoi gwybodaeth am iechyd

Mae'r prosiect yn rhoi grym i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i lywio gan Anabledd Dysgu Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â:

- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Mencap Cymru

Staff y prosiect yw:

- Cyd-drefnydd Prosiect

Fy enw i yw Peter Jones. Mae ein gwaith yn mynd i helpu gwella ansawdd bywyd pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd. Bydd y llawlyfr rydyn ni'n ei wneud yn helpu darparwyr gwasanaeth i wneud eu gwybodaeth hawdd ei deall eu hunain.

- Swyddog Gwybodaeth Hawdd ei Deall

Helo, fy enw i yw Bethan James. Rydw i'n casglu ac ymchwilio i wybodaeth hawdd ei deall am iechyd a'i llwytho i fyny ar ein gwefan newydd. Rydw i'n hoffi gweithio ochr yn ochr â Gwyn ac rydyn ni'n dysgu llawer am fwyta'n iach!

- Swyddog Gwybodaeth Hawdd ei Deall ag anabledd dysgu

Helo, fy enw i yw Gwyn Owen. Rydw i'n edrych ar lawer o ddogfennau a thudalennau gwefan am fwyta a chadw'n iach er mwyn i ni fedru newid y geiriau a'u gwneud yn hawdd i'w darllen a'u deall. Mae hwn yn waith diddorol iawn ac unwaith rydyn ni wedi cael y wybodaeth i gyd byddwn yn ei rhoi i fyny ar ein gwefan Iechyd Hawdd ei Gyrraedd Cymru er mwyn i bawb fedru dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

- Cyfieithydd Gwybodaeth Hawdd ei Deall a Chynghorwr Llinell Gymorth

Fy enw i yw Eluned Jones. Rydw i'n gwybod ei bod yn well gan lawer o bobl ddarllen gwybodaeth yn Gymraeg am eu bod yn deall Cymraeg yn well. Fe fydda i'n newid y wybodaeth Saesneg sydd ar y wefan newydd yn wybodaeth Gymraeg. Fe fydda i'n helpu pobl fydd yn ffonio'r llinell gymorth i ddod o hyd i wybodaeth Gymraeg a Saesneg a'u helpu i'w deall.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Anabledd Dysgu Cymru

Gwyn Owen: 029 2068 1175
Bethan James: 029 2068 1164
Peter Jones: 029 2068 1176

gwyn.owen@learningdisabilitywales.org.uk
bethan.james@learningdisabilitywales.org.uk
peter.jones@learningdisabilitywales.org.uk

Rhif y llinell gymorth yw 0808 808 1111